



Digon i dychryn pawb yn y Neuadd Goffa

tud 3/5

Pobl a Phethe

tud 5/12

Ysgolion

tud 15

Ble yn y byd?

tud 16

Chwaraeon

Codi arian i'r Eisteddfod

Ers rhai misoedd bellach mae'r pwyllgor lleol wedi bod yn brysur yn trefnu digwyddiadau i godi arian i'r apêl leol. Gwahoddwyd yr artist, Ruth Jên i ddylunio llun i gynrychioli Tal-y-bont. Aeth Ruth o amgylch i dynnu lluniau ac i gasglu syniadau a delweddau ac erbyn hyn mae'r llun wedi ei gwblhau. Dywedodd Ruth ei bod wedi ceisio cynnwys nodweddion pensaernïol y pentref yn y llun gan gynnwys y capeli, rhesdai, y Llew Gwyn a'r Llew Du a nifer o adeiladau eraill. Mae llinellau crwm yn amlwg hefyd yn y darlun gan gynrychioli'r diwydiannau. Ac fel yn y pentref ei hun, mae'r ffordd fawr yn ei rannu'n ddwy ochr neu ddwy ran.

Bydd copiau wedi eu rhifo o'r llun yn cael eu gwerthu am £35 heb ei fframio neu £55 wedi ei fframio. Dyma anrheg Nadolig perffaith i'r teulu pell ac agos.

Os hoffech archebu eich llun yna cysyllter â Ysgrifennydd – Mrs Jennifer



Ruth Jên

Evans, Neuadd Fawr, ffôn 832367 neu Ellen ap Gwynn, ffôn 832551.

Fe welwyd y llun am y tro cyntaf yn gyhoeddus mewn noson o siopa Nadolig yn yr hen ysgol, Tal-y-bont ar Nos Wener, Tachwedd 7fed

(gweler tud 13).

Gwahoddwyd Ruth Jen a Lowri Steffan o siop *Dots* i arddangos ac i werthu eu nwyddau. Daeth nifer dda o bobl yr ardal yno i fwynhau tamed o fwyd a glasied o win i godi arian i'r eisteddfod.

Roedd nifer o'r trigolion lleol hefyd wedi dod i gael golwg ar yr adeilad ac i hel atgofion am yr amser a dreuliwyd yno a'r digwyddiadau a fu.

Diolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant y noson.

Penblwydd arbennig
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i David James Thomas, Tanllidiart, Bont-goch ar ddathlu penblwydd arbennig ar 4 Tachwedd.

Carolau yn eglwys Elerch
Cynhelir gwasanaeth blynyddol o garolau yn Eglwys St. Pedr, Elerch ar Nos Fercher, 10 Rhagfyr am 7-00 pm. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Tai hen a newydd ym Mont-goch
Er gwaethaf y wasgfa ariannol, mae’r diwydiant adeiladu yn ffynnu ym Mont-goch! Mae adnewyddu’r Hen Waith Dwr yn tynnu at y terfyn, ac mae Sean a Siân yn edrych ymlaen i symud i’w cartref newydd yn y dyfodol agos.


Da yw gweld fod y gwaith wedi dechrau ar adfer Tanllidiart yn dilyn y tân a ddifrododd y tŷ yn ddiweddar.

Mae’r tŷ newydd y tu cefn i Tanllidiart ar gyfer Ron a Carol Cardy yn datblygu’n gyflym, a gobeithir gweld y to yn orffenedig cyn y Nadolig. Mae Ron a Carol yn byw yn Swindon ar hyn o bryd ond yn edrych ymlaen at ddod i fyw i Gymru yn y flwyddyn newydd. Mae’r ddau wedi dewis enw Cymraeg, Dan-y-dderi, i’w cartref newydd. Edrychwn ymlaen i’w croesawu i’n plith.

Recordio cryno ddisg
Bu Cwmni Sain yn recordio cryno ddisg o ganeuon yn Eglwys Elerch ar Ddydd Sadwrn 11 Hydref yng nghwmni Parti’r Penrhyn.

Cartref Newydd
Dymuniadau gorau i Ceri Jones sydd wedi symud o Fachynlleth i “Islwyn”, Taliesin, hen gartref ei mamgu - sydd bellach wedi ei ail enwi yn Ty Ceri. Mae Ceri yn ferch i Jane, chwaer Ann Humphreys ac yn gweithio gyda “Tir Gofal” yng Ngogerddan.

Dathlu Penblwydd
Dymuniadau gorau i’r Parchedig Owen Williams fydd yn dathlu ei benblwydd yn 98 mlwydd oed ar yr 20fed o Dachwedd. Mae’n cael iechyd da a gofal caredig staff Hafan y Waun, Waunfawr ac mi fydd ei deulu, yr wyrion a’r gorwyrion yn ymuno gydag ef i ddathlu achlysur.



Priodas

Ar ddydd Sadwrn Medi 13eg yn Eglwys Sant Pedr Elerch priodwyd Dylan mab Geraint a Jean Evans, Cwmslaid, Tal-y-bont a Karen Joule. Gwasanaethwyd gan y Parch John Livingstone. Dymuniadau gorau i’r ddau a’r teulu bach yn Ger y Nant.



Priodas

Llongyfarchiadau i Andrew ac Alison Taylor, Bro Ceulan, Tal-y-bont ar eu priodas yn ddiweddar yn Abaty Coombe. Pob dymuniad da i chi eich dau.

Cyfarfod y Chwiorydd, Rehoboth.
Ail gychwynwyd y Gymdeithas ar brynhawn Mawrth, Hydref 14eg. Croesawodd ein llywydd y nifer dda o aelodau gan gyfeirio at anhwylder Mrs A Watkin, Miss A Rees a Mrs E Williams, a dymuno adferiad buan iddynt.

Cawsom orig ddifyr yng nghwmni Mrs Edna Griffiths o’r Brithdir, cymeriad hwyliog ac yn llawn egni. Mae’n rhedeg busnes o’i chegin gartref o dan yr enw “Bonedau Brithdir” ac yn gweithio i ofynion ei chwsmer. Mae wedi ymddangos ar raglen deledu Cwpwrdd Dillad a’r Sioe Gelf a hefyd wedi mynd dramor i arddangos ei chrefftau ac yn eu gwerthu mewn siopau arbennig.

Edmygwyd ei chynryrch yn cynnwys hetiau, siol, siaced ac addurn gwddf i gyd allan o ddeunydd naturiol, o wlan, ffelt, priciau pren cyll a chyrten net, wedi ei liwio’n effeithiol gan ddail te.

Diolch i Eirlys am brynhawn pleserus, dechreuad ardderchog i’r tymor.

Ar y Radio
Pleser oedd clywed Phil Davies, Gwynionydd, Tal-y-bont, yn cyflwyno eitem rænus a diddorol ar raglen John Hardy ar Radio Cymru fore Sadwrn 18 Hydref. ‘Cysylltiadau’ oedd thema’r rhaglen, a soniodd Phil yn ddifyr tu hwnt am ei gysylltiadau teuluol ac am dref Llandysul a’i chymeriadau. Melys moes mwy!

Consurio
Mae talent cerddorol Sam Ebenezer, 2 Maes y Felin, Tal-y-bont yn wybodus i ni i gyd ond wyddech chi ei fod yn consurio? Gwelwyd ef ar raglen Mosgito ar S4C yn ystod y mis yn rhoi arddangosfa gonsurio. Wyt ti ar gael i dy hurio ar gyfer partion Sam?

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â theulu Llwynglas ar golled arall iddynt. Bu farw modryb i Alun.

Penblwydd Hapus
Deallwn fod Wendy Watkins, Pentrebach yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod y mis. Penblwydd hapus i chi Wendy.

Actores Ifanc

Nos Wener, Hydref 31ain, perfformiwyd sioe ‘Milcshec’ gan gwmni Ieuenctid Theatr Felinfach. Un a fu’n perfformio yn y sioe ac sydd wedi bod yn aelod o’r cwmni ers dwy flynedd yw Heledd Jones, Pistyll y Llan, Tal-y-bont. Nid yn unig y gwelwyd hi’n actio ac yn dawnsio ar y llwyfan ond fe’i gwelwyd ar y rhaglen WEDI 7 hefyd yn cael ei chyfweld. Llongyfarchiadau i ti Heledd.



Ymwelwyr Siapan

Breuddwyd y diweddar Frank Evans, Elgar, Tal-y-bont oedd meithrin cyfeillgarwch rhwng ieuenctid Aberystwyth a ieuenctid Siapan a rhai blynyddoedd bellach gwiredwyd ei freuddwyd. Bob dwy flynedd daw myfyrwyr o Siapan ar ymweliad ag Ysgol Penweddig ac ar fore Sul 2 Tachwedd daeth nifer o ieuenctid, athrawon a swyddogion o Siapan i Dal-y-bont i ymweld â bedd Frank Evans ac i weld ei hen gartref. Yna cawsont gwpaned o de gwyrdd a chacennau cri yn festri Bethel.



Sefydliad y Merched Tal-y-Bont

Braint cangen Bedwen o Sefydliad y Merched yn ddiweddar oedd croesawu ffederasiwn Sefydliad y Merched i gyfarfod yn Nhal-y-bont. Croesawyd hwy gan gadeirydd y gangen, Sheila Talbot. Merched y te oedd Dr Myrtle Parker, Valerie Deaville a Hilary Hadfield.

Swper Cynhaeaf

Nos Fercher, Hydref 22ain, yng nghlydwch ystafell waelod y neuadd Goffa, cynhaliwyd Swper Cynhaeaf dan nawdd Capel Bethel. Daeth dros ddeugain o oedolion a phlant i fwynhau swper poeth, cwpaned a chlonc. Wedi’r gwledda a’r sgwrsio, trefnwyd cwis amrywiol a mawr fu’r dyfalu a chystadlu. Derbyniodd yr enillwyr gyfrifiannellau swmpus. Gwnaethpwyd elw o £357 i Apel De Affrica yr Annibynnwyr.




Parti Calan Gaeaf y Cylch Meithrin

Er gwaetha’r tywydd garw daeth llond lle o ysbrydion, gwrachod, corachod a bwci bŵ o bob math i barti Calan Gaeaf y Cylch Meithrin ar nos Fercher y 29ain o Hydref yn y Neuadd Goffa. Ar ôl iddynt lenwi eu boliau gyda chawl, cwn poeth a thatws pôb bu Helen, Gellimanwydd yn beirniadu’r wisg ffansi orau. Dyma enillwyr y gwahanol oeddrannau: Angharad Williams, Ffion Hicks, Betsan Siencyn, Niamh O’ Donnell a Jenô Lewis. Enillwyd y bwmpen orau gan Carwyn Tomos â tipyn o gamp gan fod tua 15 pwmpen yn y gystadleuaeth! Ar ôl y cystadlu bu’r plant yn dawnsio ac yn chwarae gemau amrywiol â diolch i Rhian Nelves am fod yng ngofal y gweithgareddau. Am 7.30 diflannodd yr ysbrydion, gwrachod, corachod a’r bwci bŵ yn ôl i’r tywyllwch. Diolch i Helen, ac i bawb arall fu’n cynorthwyo ar y noson. Roedd nifer o gymeriadau eraill eithaf rhyfedd yn crwydro ardal ar noson Calan Gaeaf, gan gynnwys y rhain. Pwy tybed?

Os Mets

Aeth criw o bobl ifanc yr ardal i fwynhau orig ar y wal ddringo ar gampws y brifysgol yn Aberystwyth ar Nos Iau, Tachwedd 6ed. Mae’r ieuenctid yn perthyn i ‘Os Mets’, sydd yn gymdeithas gyd-enwadol yn yr ardal, ac sy’n cyfarfod bob pythefnos.



Angharad Williams a enillodd wobwr

Ysbrydion y nos



Colli Merch

Ar Hydref 22ain, yn 54 oed, bu farw Linda Elisabeth Peers, merch Mrs Dilys Hughes a’r diweddar Gareth Hughes, a chwaer y diweddar Margaret, Llys Alaw, Tal-y-bont. Roedd Linda’n byw gyda’i theulu David, ei gwr, a’i merch Elen ym Mwcle, Sir y Fflint. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont ac Ysgol Ardwyn. Roedd yn chwarae’r fiola yng ngherddorfa Ceredigion. Aeth i’r coleg ym Mangor a bu’n athrawes am flwyddyn yng Nghaerdydd cyn symud i Fwcle ble bu’n athrawes am 30mlynedd. Yn ddiweddarach cafodd swydd athrawes yn Sandicroft, ger Caer. Yn ferch ifanc, bu’n organyddes yng nghapel Nazareth a gwasanaethodd fel organyddes yn Eglwys Fethodistaidd Bwcle. Roedd Linda’n ferch dawl a diymhongar. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Fethodistaidd Bwcle ar Hydref 31ain. Cydymdeimlwn a Mrs Dilys Hughes a’r teulu yn eu colled.

Bethesda Tynant

Y newyddion a ddaw o bob man yr wythnosau diwethaf yma yw y ‘Credit Crunch’, ond yn ffodus i aelodau’r capel bach y mae’r newyddion yn wahanol. Ddechrau’r flwyddyn derbyniwyd swm o arian tuag at waith angenrheidiol i atgyweirio’r capel. Diolchwn o waelod calon am yr arian a dderbyniwyd trwy garedigrwydd Cronfa Eleri.

Eleni felly ni chafwyd blwyddyn o Suliau llawn dros yr haf. Ym mis Ebrill dechreuwyd ar y gwaith tu allan a thu fewn yr adeilad, ond fel y gwyddoch cafwyd haf mor ofnadwy o wlyb, ac mae’r gwaith heb ei orffen. Beth bynnag am y tywydd cafwyd dwy oedfa y byddwn yn cofio amdanynt; y capel yn llawn o bobl a phobl ifanc. Ym mis Mehefin daeth Ysgol Sul Bethel yn ôl ei harfer a hyfryd yw croesawu’r plant bob amser. Mawr yw ein diolch i Mrs Falyri Jenkins a’r athrawon.

Ym mis Hydref am y tro cyntaf erioed daeth aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a’r Cylch i gynnal ei cwrdd diolchgarwch. Arferiad y ffermwyr Ifanc bob blwyddyn yw cynnal ei cwrdd diolch o dan arweiniad ei cadeirydd – sef eleni Elgan Evans, fferm Tynant. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan aelodau’r clwb a chafwyd anerchiad pwrpasol a diddorol gan Mr Brian Davies, pwysleisiodd ei bod yn bwysig i gadw’r capel ar agor, a rhoddodd her i’r ieuencid fod y dyfodol yn eu gofal hwy, i gadw’r iaith a’r gofal i edrych ar ôl y bydysawd i’w plant ac i blant eu plant. Tybed a fydd Bethesda Tynant o’r diwedd mor enwog â Soar y Mynydd!!

Diolch i’r rhai yn y gorffennol a fu yn brwydro cymaint i’w gadw ar agor.

E. Royle Evans

Sul y Cofio

Cynhaliwyd Sul y Cofio, neu Sul Coffau Trueiniaid Rhyfel yn Neuadd Goffa Tal-y-bont, fore Sul, 9fed o Dachwedd gyda chynulleidfia luosog o oedolion a ieuencid yn bresennol.

Cymerwyd at rannau arweiniol y gwasanaeth gan Mr Keith Jones, Penparcau. Cyflwynwyd darlenniadau o’r Testament Newydd, gan y Cyng Nest Jenkins, Cadeirydd y Cyngor Cymuned ac yn Saesneg gan Dr Myrtle Parker.

Darllenwyd rhestr enwau y gwroniaid o’r gymuned yma a gollodd eu bywydau yn y ddau ryfel byd, gan Mr Goronwy Jones ynghyd â’r Cymhelliaid ac ar ol dwy funud o ddistawrwydd, adroddiad Beddargraff Kohima.

Canwyd y caniad olaf a chaniad y bore ar y trwmped gan Dennis Foster.

Gosodwyd torchau pabi ar y meini coffa gan Mrs Doris Pierce a Mr Bob Southgate. Arweiniwyd y gynulleidfia mewn gweddiau gan Mr Keith Jones a chanwyd emyn Saesneg.

Mrs Elizabeth James fu’n cyfeilio ar y piano a’r casglyddion oedd Mrs Eirlys Jones, Maesyderi a Mr John Southgate gyda’r derbyniadau yn £133.79, swm a drosglwyddir i Apel Pabi’r Llang Brydeinig.

Diolchwyd i Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr am eu caredigrwydd trwy ofalu am gost y torchau pabi.

GJ

Pobl a Phethe

Brysiwch Wella

Anfonwn ein cofion cynnes a’n dymuniadau gorau i Mrs Mair Nutting, Tŷ Hen Henllys, Mrs D. Douglas Jones, Brooklyn, Tal-y-bont, Mrs Rita Llwyd, Trefechan (Penlôn gynt) a Mr Idris Jones, Llys Ynyr, Tal-y-bont sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod y mis. Gobeithio’n fawr eich bod i gyd yn gwell.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Berthlwyd, Tal-y-bont ar farwolaeth tad a thad-cu annwyl. Bu farw Mr Evan Owen Jones yn dawl yn Ysbyty Bronglais ar Dachwedd 3ydd ac fe gynhaliwyd ei angladd yng Nghapel Bethel ar Sadwrn, Tachwedd 8fed. Bydd teyrnged iddo yn rhifyn nesaf *Papur Pwbl*.

Clwb Eglwysfach, Ffwrnais, Glandyfi

Mi gafodd yr aelodau brynhawn braf yn cael te yng ngwesty Trefeddian, Aberdyfi, yn ddiweddar.

Cymdeithas Rehoboth

Cafwyd dechrau da i’r Gymdeithas pan ddaeth Y Parch W.J.Edwards (Billy Stryd Isa) a Gwenda i roi hanes y chwech mis a dreuliasant ym Mhatagonia, yn cynnwys sleidiau. Cawsom weld lluniau o’r capeli, a chlywed am y cysylltiadau oedd gan y rhan fwyaf a Chymru. Roedd ogofau Porth Madryn yn edrych yn hollol wahanol ar sleid. Roedd yn noson arbennig a phawb wedi mwynhau.

Noson Gwis, Eglwysfach

Mae clociau wedi newid ac mae gaeaf rownd y gornel felly mae’n amser i feddwl am noson gwis eto! Diolch i Chris Fuller a Roy Bamford am drefnu yr un cyntaf yn ddiweddar. Y tîm buddugol y tro yma oedd Delyth Griffiths, Len Warren, Lynda Warren a Barry Thomas.

Sefydliad Y Merched, Eglwysfach

Yn y cyfarfod blyneddol ar 3ydd Tachwedd etholwyd pwyllgor am flwyddyn 2008/9, sef Juliet Regan (Llywydd), Jill Roberts, Celia Groves, Wendy Fuller, Joanna Pettitt, Ann Ovens, Judith Pearson, Jacqui Relph a Vik Bamford. Wedyn fe gafodd yr aelodau awr ddiddorol yng nghwmni Ann Ovens. Roedd Ann yn siarad am ei hobi yn cadw dofednod. Dechreuodd diddordeb Ann tra oedd hi’n byw yn Affrica. Fe ddaeth hi â 2 sofliar (*quails*), ei hoff aderyn, i ddangos i bawb. Mi oedd cyfle i flasau wyau sofliar hefyd.

Y Gymdeithas

Cyfarfu’r Gymdeithas yn festri Rehoboth, Taliesin am y tro cyntaf y tymor hwn ar nos Iau, 30 Hydref. Estynnodd ein gweinidog, y Parchedig Wyn Morris, groeso cynnes i’r cyfarfod i’r Parchedig W.J. Edwards a’i briod, Bow Street. Treuliodd y ddau rai misoedd yn y Wladfa ym Mhatagonia flwyddyn yn ôl, a chawsom weld sleidiau o’r daith a chlywed hanes y brodorion a’u cysylltiad â Chymru. Talwyd y diolchiadau gan Bob Williams.



M & D PLUMBERS
Plumbing & Heating
Ffôn: 01970 803068
Cyfeirir i ni yn gartol ar
01974 203026 / 01974 203027



S. F. BYRNE
Adroddwr a Sgerwr Maen
Ffôn: 01970 803068
Ffôn: 017626 20309
Gwasanaethau gwyddonol a masnachol

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Ysbryd y Mwynwyr

Yn ystod mis Hydref fe ddaeth y Cynghorydd Ellen ap Gwynn i'r ysgol i ddosbarthu copïau o'r cryno-ddisg a'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth am olion y gweithfeydd mwyn yn yr ardal. Rhoddodd gopïau o'r byrddau sydd i'w gweld ym mhentrefi'r ardal yn rhoi mwy o fanylion am y cysylltiad â'r diwydiant yn lleol hefyd. Roedd cael y wybodaeth yn werthfawr iawn i ni yn yr ysgol, gan ein bod yn mynd i Amgueddfa Mwyngloddio Llywernog yn aml i godi gwybodaeth am weithfeydd plwm yr ardal. Diolch yn arbennig i Robin Tomos ac Esther Ifan am eu rhan yn tynnu rhan yma o'r prosiect tuag at ei derfyn yn Llan-fach yn ddiweddar.

B3 a 4

Cerddodd dosbarth 3 i fferm Llety Llwyd, Tal-y-bont, er mwyn gweld olion y gaer Geltaidd sydd yno. Roedd yn ymweliad gwerthfawr i'r plant ac rydym yn ddiolchgar i Ioan am drefnu i gasglu'r ceffylau o'r safle cyn inni gyrraedd yno. Fel rhan o'u gwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol, cafodd y plant ginio blasus yng Ngwesty'r Llew Du, Tal-y-bont yn hytrach nag yn yr ysgol, ar 23 Hydref. Diolch i Mark a Myfanwy am y croeso cynnes. Bu disgyblion blwyddyn 4 yn siop Spar Tal-y-bont yn gwneud gwaith mathemateg. Diolch i Heulwen am y croeso a'r siocled!



Rhedwyr traws gwlad Ysgol Tal-y-bont



Bechgyn Blwyddyn 3 a 4 yn mwynhau eu cinio yn y Llew Du



Billy Williams yn cadw curiad cyson ar y drymiau yn ystod Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol



Enillwyr cystadleuaeth y Darlun Mawr sef o'r chwith: Sion Nelmes cyntaf, Penri Hughes canmoliaeth, Matthew Edwards canmoliaeth



Blwyddyn 3 a 4 ar ben Bryngaer Llety Llwyd



Rhai o aelodau côr Ysgol Tal-y-bont yn stiwdio recordio Prifysgol Aberystwyth

Os am daesi neu fws mini

**CAMBRIAN
CABS**

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

DEFODIGCH GYMRO LLEOL

H. LLOYD WILLIAMS
CYNNAL A CHADW' GERDDI
TORTI PONTA A SIETHY.
GOSOD DECKING A SLABAU

DOES DIM FY CHREID O WILTH!

32 Bryncallan Ffôn 01970 820499
Blow Street Strybolot 07956 508515

CANOLFAN
M.O.T.

**HUW
LEWIS**

M.O.T.
CENTRE

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

TEIARS

**HUW
LEWIS**

TYRES

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM



Ffôn 01970 636774

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Estynnwyd croeso gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Nest Jenkins, i'r aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar nos Lun 27 Hydref. Ymhlith y materion oedd yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol adroddwyd i'r noson lansio Prosiect 'Dilyn Llwybrau'r Mwynwyr' yn Llanfach fod yn un lwyddiannus iawn. Roedd tyrfa dda'n bresennol a chafwyd cyflwyniadau hynod o ddiddorol. Nodwyd bod dau banel gwybodaeth Ceulanamaesmawr bellach yn eu lle. Adroddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei bod wedi cyflwyno copi o holl baneli gwybodaeth y prosiect i Ysgolion Llangynfelyn a Thal-y-bont, ac wedi cyflwyno copi o'r CD a gynhyrchwyd i gyd-fynd â'r Prosiect i bob disgybl yn y ddwy ysgol. Nodwyd ymhellach bod rhagor o broblemau wedi codi yn ystod y mis parthed gwerthu ceir yn breifat ar y borfa ar bwys mynedfa'r ysgol a hefyd gerllaw'r gysgodfan bysiau ym Maes-y-deri. Hysbyswyd yr Asiantaeth Priffyrdd a gweithredwyd ar y mater ganddynt yn ddiymdroi.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad cynhwysfawr o Gyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar. Ymhlith y siaradwyr yn sesiwn y bore ar thema'r Amgylchedd a Chynghorau Lleol roedd Jane Davidson AC (Gweinidog Dros yr Amgylchedd), Syr John Houghton, a Hugo Deyman a soniodd am lwyddiant cynllun cyffrous Cyngor Plwyf Ashton Hayes yn Swydd Caer sydd wedi llwyddo i leihau'r defnydd o garbon o fewn y gymuned o 21%.

Derbyniwyd gwahoddiad gan gwmni Airtricity ar i'r Cyngor enwebu un o'r Cynghorwyr i fod yn aelod o'r Grŵp Cysylltu Cymuned. Hwn yw'r cwmni a benodwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth i ddatblygu cynllun ynni gwynt yng nghoedwig Nant y Moch a Moel Fferm. Os caiff y datblygiad ei ganiatáu, yna dosberthir arian sylweddol er lles y cymunedau hynny sydd o fewn ardal y datblygiad. Cytunwyd yn unfrydol i enwebu'r Cynghorydd Gerwyn Jones i gynrychioli'r Cyngor ar y Grŵp. Mae Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd yn cynnig ymestyn pwerau Cynghorau Cymuned a Thref trwy eu galluogi i ddirwyo unigolion sy'n taflu sbwriel, peintio graffiti, gosod posteri mewn mannau gwaharddedig, a pherchnogion cŵn sy'n baeddu'r palmantau. Cyn mabwysiadu'r pwerau hyn bydd raid i'r Cyngor roi ystyriaeth lawn i'r oblygiadau ymarferol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi paratoi dogfen sy'n cynnig arweiniad clir i Gynghorau wrth iddynt ystyried a ydynt am fabwysiadu'r pwerau hyn ai peidio. Pasiwyd i drafod cynnwys y ddogfen yng nghyfarfod mis Ionawr. Yn y cyfamser, rhoddir cyfle i bob aelod ddarlennu y ddogfen.

Derbyniwyd llythyr gan y Cynghorydd Ray Quant, Cadeirydd

TraCC, yn gwahodd y Cyngor i gyflwyno eu tri blaenoriaeth ar gyfer gwella trafnidiaeth yng nghanolbarth Cymru. Pasiwyd i awgrymu'r blaenoriaethau canlynol: (a) Darparu gwasanaeth trên bob awr ar Brif Reilffordd y Cambria (Amwythig i Aberystwyth); (b) Gwella cyfleusterau ar gyfer teithwyr bysiau (cyfnewidfeydd, cysgodfannau, hysbysrwydd); (c) Datblygu Trafnidiaeth Gymunedol gan gynnwys Galw'r Gyrwr. Cytunwyd i nodi'r ddwy flaenoriaeth ganlynol i Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys fel rhan o'r Cynllun Plismona ar gyfer y cyfnod 2009-12: (a) Heddlu'n amlwg ar y strydoedd; (b) Rhwyddineb mynd at yr heddlu. O dan 'Unrhyw Sylw Arall' mynegwyd cryn anffodlonrwydd gyda'r gwasanaeth derbyn negeseuon ffôn.

Cyflwynodd y Clerc adroddiad byr o sefyllfa ariannol y Cyngor am chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol. Er bod y sefyllfa'n ymddangos yn iach ar hyn o bryd, fe fydd yr ymrwymadau yn ystod ail hanner y flwyddyn lawer iawn yn drymach. Ni ddylai'r Cyngor fynd i ddyled, ond gan bod y gwariant Cynnal a Chadw yn uwch na'r amcangyfrifon ni fydd llawer o arian dros ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Adroddwyd bod y ceisiadau cynllunio canlynol bellach wedi eu derbyn yn amodol gan yr Awdurdod Cynllunio: newid defnydd Ysgoldy Eglwys Bont-goch yn dŷ annedd; codi 2 annedd yng Nghae Pant Gwyn, Bont-goch; codi 3 annedd ar bwys Glas-y-ddôl, Tal-y-bont; codi annedd ar bwys Bryn-y-Wawr, Tal-y-bont; codi annedd ar bwys yr Hen Ficerdy, Bont-goch. Cytunwyd i ohirio penderfyniad ynghylch a yw'r Cyngor am symud ymlaen ai peidio gyda gwahoddiad BT i fabwysiadu neu i noddio ciosg nes cael gwybodaeth swyddogol am dynged arolwg BT o giosgs ffôn sydd i'w cau o fewn y gymuned.

O dan unrhyw faterion eraill cytunwyd i drefnu goleuadau a choeden Nadolig a seremoni oleuo ar batrwm y llynedd. Hefyd adroddwyd bod angen rhagor o waith cynnal a chadw ar wyneb y Cae Bach ac ar y lloriau rwber o dan y siglenni. Cytunwyd i fwrw ymlaen i wneud y gwelliannau hyn mor fuan ag sy'n ymarferol bosib. Derbyniwyd cwyn nad yw rhai o'r biniau ailgylchu ar bwys y Cae Bach yn cael eu gwagio yn ôl y galw. Derbyniwyd cwyn gyffelyb ym mis Ionawr, a'r esboniad a roddwyd bryd hynny oedd salwch staff a bod angen gwasanaethu'r cerbyd. Ar gynnig y Cynghorydd Gerwyn Jones, cytunwyd i gysylltu â'r Cyngor i awgrymu y byddai'n dda o beth nodi ar y biniau rif ffôn y gallai aelodau o'r cyhoedd gysylltu ag e pan fydd y biniau'n llawn.

Trysorau i ddathlu Eisteddfod fawr y Cardis

Mae trefnwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Ngheredigion 2010 yn torri tir newydd – nid plat fydd yna i godi arian at yr ŵyl ond cyfres o chwech o jygiau hardd.

Ar ben hynny, mae nhw wedi eu creu gan un o brif artistiaid Cymru ac yn dangos golygfeydd o bob rhan o'r sir.

Fe fyddan nhw'n mynd ar werth am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd – nifer cyfyngedig sy'n cael eu creu.

Fe fydd cyfle arbennig i brynu'r jygiau gyda'r rhifau pwysig 1 a 10 – fe fydd ocsiwn yn cael ei chynnal i werthu'r rheiny.

Lowri Davies o Aberystwyth sydd wedi eu creu – mae hi'n enwog am ei gwaith gyda cherameg a phorslen ac wedi ennill Medal Aur yr Eisteddfod Genedlaethol am waith crefft.

Fe fu'n rhaid iddi fentro i ben clogwyn uwch y môr ac i lawr i geunant afon Teifi er mwyn creu'r darluniau sydd ar y llestri – pob un yn cynrychioli un o gylchoedd yr Urdd o fewn y sir.

"Un Llandysul oedd fwyaf anodd," meddai Lowri, sy'n dweud ei bod yn falch o'r anrhydedd o gael gwneud y jygiau. "Roedd rhaid i fi ddringo i lawr at yr afon er mwyn cael yr ongl iawn i weld y bont."

Ond, yn ôl Cadeirydd Pwyllgor Marchnata'r Eisteddfod, Rhian Dafydd, roedd yr ymdrech yn werth chweil a'r dewis o luniau –

Craig Glais, Aberystwyth; Coleg Llanbed; Sgwâr Tregaron; Plasty Llanerchaeron; Llangrannog; a Phont Llandysul – am apelio at bob Cardi.

"Rydyn ni'n falch iawn o'r jygiau," meddai. "Maen nhw'n drysorau bach ac yn gofnod unigryw a gwerthfawr o ymweliad Prifwyl yr Urdd gyda Cheredigion. Lowri Davies yw un o artistiaid ifanc mwya' addawol Cymru."

Roedd Lowri'n creu'r jygiau trwy beintio lluniau dyfrlliw o'r golygfeydd yn y fan a'r lle ac yna'n eu hargraffu, eu tanio a'u gwydro i'w rhoi ar y jygiau.

Fe fu'n ymgynghori gyda phwyllgorau lleol yr Eisteddfod ynghylch rhai o'r golygfeydd – a'i dewis hi oedd rhai o'r lleill.

"Fi ddewisodd blasty Llanerchaeron i ddarlunio cylch Aeron," meddai. "Dw i wirioneddol yn hoffi'r adeilad."

"Wrth ddarlunio ardal Aberteifi, fues i'n meddwl am sawl lle ond, yn y diwedd, roedd rhaid dewis Llangrannog, oherwydd ei gysylltiadau gyda gwersyll yr Urdd."

Rhagor o wybodaeth:

Nia Wyn Davies

niawyn@maesglas50.freeseve.co.uk

Richard Iorwerth Jenkins

(1922-2008)



Gan imi fethu bod yn angladd y cyfaill Dic Gelli Greigiog, Penrhyn-coch, rwy'n falch o gael teyrngedu iddo a minnau wedi ei 'nabod er pan oeddwn yn blentyn yn Nhaliesin. Fel Dic Ynys Greigiog, Eglwys-fach yr oedd pawb yn ei nabod ac yn hen gynefin ei deulu y bu byw ar hyd ei oes ar wahân i'r misoedd olaf yn y Penrhyn. Mewn llyfr diddorol gan Hugh Rees, Dyfi View, Eglwys-fach, lle croniclodd hanes Ysgubor-y-coed gan enwi tai, ffermydd a phobl mae'n cyfeirio at William Jenkins, Ynys Greigiog fel 'galluog ysgrythurwr'. Un o feibion y gwrda hwn oedd William a briododd â Margaret un o blant Ynys-eidiol, a nhw oedd rhieni Richard Iorwerth, William John ac Anne Elisabeth. Fel ei dad bu Dic yn flaenor a thrysorydd yng nghapel y Graig, Ffwrnes, am gyfnod hir a llawenydd iddo oedd fod Heulwen ei ferch wedi'i ddilyn fel trysorydd.

Mynychodd Dic Ysgol Gynradd Eglwys-fach cyn mynd i Ysgol Uwchradd Machynlleth lle bu'n ddisgybl hynod o ddisglair yn ôl y sôn. Wedi gadael ysgol adre i ymarfer 'crefft gyntaf dynol-ryw', gyda'i dad a'i frawd a'r bartneriaeth rhwng y brodyr yn un hyfryd gydol y blynyddoedd. Ar wahân i amaethu bu'r brodyr yn fawr eu gwasanaeth yn y capel ac yng nghymuned Eglwys-fach ac mae'n dda cael cydnabod y gwasanaeth ardderchog. Gwasanaethodd Dic hefyd ar bwyllgorau Cymdeithas y Defaid Mynydd Cymraeg a'r Co-op yn Aberystwyth. Roedd y rhieni yn fyw pan bregethais yn y Graig am y tro cyntaf ac yr oedd cael eu cefnogaeth nhw a'u plant yn hwb imi ar gychwyn y daith i'r weinidogaeth. A heddiw diolchaf am 'y cwmwl tystion'.

Bu Dic farw bedwar mis cyn iddo fe ag Anne ddathlu eu priodas aur. Roedd Anne, merch William John ac Eirlys Jenkins, fferm y Gelli, Taliesin, yn yr un dosbarth a mi yn Ysgol Llangynfelyn ac yr oedd William ei brawd yn yr un dosbarth a Iorwerth fy mrawd a gollwyd ym 1993 yn 53 oed. Bu'r hen gysylltiad yn fodd inni glosio at ein gilydd ar hyd y blynyddoedd. Daeth Heulwen, Einion ac Ethel i lonni bywyd yr aelwyd a maes o law cafodd tad-cu a mam-gu gwmni'r wyrion a'r wyresau – Rhys, Rhodri, Richard, Alwenna, Gwion, Gerallt a Tomos. Buont o gysur mawr i Dic yn ystod ei lesgeidd. Roedd Dic yn meddwl y byd o'i deulu ac fel ei hynafiaid roedd yn fawr ei groeso i lu mawr o gyfeillion fyddai'n galw yn y cartref. A phob tro y byddem yn cwrdd â'n gilydd roeddwn yn cael y teimlad ei fod yn falch o'm gweld a chael seiadu ynglŷn a phethau'r byd a'r betws. Roedd hynny'n wir y tro olaf y gwelais ef yn wael iawn yn Ysbyty Bro Ddyfi ac yntau'n canmol mawr ofal y rhai oedd yn gweini arno. Roedd yn briodol fod y cyfraniadau hael o £1000 wedi'u cyflwyno i Uned Twymyn yn yr ysbyty a diolchir i bawb a gyfrannodd.

Diolch am fywyd a gwasanaeth Dic ac am ei gyfeillgarwch gydol y blynyddoedd a chofion annwyl at Anne a'r teulu yn eu chwithdod o golli un fu'n dŵr cadarn iddyn nhw. Bu'r cynhebrwng yn Rehoboth Taliesin ar 19 Gorffennaf dan arweiniad ei gyn-weinidog y Parchedig Elwyn Pryse yn cael ei gynorthwyo gan y Parchg. Aubrey Newell, gydag Eiriona Metcalfe wrth yr organ. Daearwyd y gweddillion ym mynwent Llangynfelyn yn ymyl rhieni Anne, ei thad-cu a'i mam-gu, William J. ac Anne E. Jenkins, Bwlcheinion, Ffwrnes, a'i rhieni hithau, John a Mary Evans fferm Tanllan.

W.J. Edwards

Corau meibion - adfywiad?

Gyda llwyddiant enfawr Côr Meibion Froncysyllte yn ddiweddar, a buddugoliaeth 'Only men aloud' ar y rhaglen deledu 'The last choir standing', mae'n ymddangos bod corau meibion yn fwy ffasiynol nag erioed. Roedd yn amlwg i unrhyw un a ddilynnodd y cystadlaethau corau meibion yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni fod yna draws-doriad da o ran oedran yn cymryd rhan y dyddiau hyn.

Mae Côr Meibion Aberystwyth yn tynnu'n raddol at ei 50fed pen bwydd, a'r nod fydd sicrhau, erbyn dathlu'r hanner canrif yn 2012, ein bod yn dal i fynd o nerth i nerth, ac yn cynnal rhaglen amrywiol a diddorol a pherfformio ledled Cymru a thu hwnt.

Dros y misoedd diwethaf, fe fu'r côr yn cymryd rhan mewn cyngherddau ar draws y Canolbarth - yn Aberdyfi, Nhrefglwys, Tregaron, Tywyn, a Phontrhydfendigaid - ac ar ddechrau mis Tachwedd cafwyd taith i Swindon, i rannu'r llwyfan mewn cyngerdd gyda Chôr Meibion Swindon a'r gantores Bethan Dudley, sy'n dod yn wreiddiol o ardal Aberystwyth.

Hefyd fe recordiwyd y côr yng nghapel Bethel Aberystwyth ar gyfer ffilm a fydd yn hybu Cymru yn yr yr Unol Dalaethau erbyn cystadleuaeth y Cwpan Ryder 2010.

Mae'r côr yn awyddus i ddenu aelodau newydd i gryfhau'r rhengoedd. Ymunodd ambell aelod newydd yn ddiweddar, ac y mae croeso i unrhyw rai eraill sydd â diddordeb mewn canu. Dywedodd Carol Davies, Cyfarwyddwr Cerdd y Côr Meibion, ei bod yn awyddus i unrhyw un sydd ag unrhyw ddiddordeb mewn canu corawl deimlo bod drws agored iddyn nhw ymuno, neu o leiaf i ddangos eu diddordeb. "Does dim rhaid i neb aros am wahoddiad cyn dod", meddai. "a 'does dim rhaid bod yn Bavarotti neu'n Fryn Terfel i ganu mewn côr!"

Cynhelir yr ymarferion wythnosol yn neuadd Clwb yr Awyrlu (RAFA) yn Stryd y Bont, Aberystwyth – am 7.00 bob nos Iau. Mae croeso mawr i unrhyw un ddod heibio ar noson ymarfer i gael blas, neu i gysylltu ag aelod o'r côr am sgwrs – heb unrhyw ymrwymiad. Os hoffech chi ddangos diddordeb neu wybod mwy, cysylltwch ag un o'r rhain:

Lyn Jones (Cadeirydd) -01974 202277,
Mervyn Hughes 01970 828001
Peter Duggan 01970 624197,
neu Hywel Wyn Jones - 01974 2



Dofednod Cwmtynant



Dofednod ffres o fferm leol.
Archebwch wydd, twrci, hwyaden neu gwy iar erbyn y Nadolig Cysylltwch â Dilwyn, Marion, Rhydian neu Elgan
Tynant, Tal-y-bont 01970 832 257


K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theddiu Ffotograffau Ffotograffau
Gwasanaeth Boeler Olw

01970 832129
07761 917235

Lansio llyfr newydd Martin



Ar Nos Wener olaf Hydref roedd stafell fwyta’r Llew Gwyn, Tal-y-bont, yn orlawn ar gyfer lansiad llyfr newydd Martin Davis, Taliesin, sy’n dwyn y teitl: *Tonnau Tryweryn*. Trefnwyd y noson gan y cyhoeddwr, Y Lolfa, a bu Alun Jones yn cyfweld yr awdur ac yn darllen darn o’r nofel. Wedi’r lansiad cafwyd noson ddifyr yng nghwmni’r grwp poblogaidd, *Brigyn*.

Ar gais *Papur Pawb*, mae John Leeding wedi llunio adolygiad o’r nofel. Diolch i John a llongyfarchiadau mawr i Martin.

‘COFIWCH DRYWERYN!’

Sut allwn anghofio?
Ers hanner canrif mae’r enw Treweryn wedi’i serio ar enaid y genedl. Mewn llyfr, ar raglen deledu, neu ar gân, mae pob agwedd o’r hanes wedi’i drin a’i drafod a’i dadansoddi, nes i Dryweryn dyfu’n eicon Cymreig llawn cymaint â Salem. Hynny yw, pan clywn y gair Tryweryn, cenir pob math o glychau hanesyddol, diwylliannol ac emosynol sydd a wnelo ddim oll â wal gongrit enfawr bum milltir i’r gorllewin o’r Bala.

A dyma nofel newydd Martin Dafis, *Tonnau Tryweryn*.

Mae’n rhaid cyfaddef imi deimlo’n betrusgar braidd wrth agor nofel am Dryweryn. Nid unwaith neu ddwy mae rhywun wedi cael siom wrth ddarllen am ddigwyddiad hanesyddol pwysig mewn nofel Gymraeg. Cymeriadau pren yn hercian trwy gyfres o sefyllfaoedd afreal, tra’n traethu’n, hirwyntog rhagfarnau’r awdur.

Doedd dim angen gofidio gyda hon. Am y rheswm, rwy’n credu, mai nid nofel am Dryweryn yw hon, mwy nag yw *A Tale of Two Cities* yn nofel am y Chwyldro Ffrengig, na hela morfilod yw testun *Moby Dick*. Nofelau am bobl ydynt i gyd yn y bôn: unigolion sy’n byw mewn lle arbennig ar ryw amser neilltuol, a sut maent yn ymateb i broblemau (neu her) eu hamgylchiadau.

Mae Emlyn, clerc banc ym Meirion, yn canlyn Mefina ac yn gobeithio ei phriodi ac ymgartrefu yn ei gynefin. Gweld ei hyfforddiant fel nyrs yn Lerpwl fel diangfa mae Mefina, rhag cael ei mygu gan Emlyn a’i chartef anghynnes. Yno mae’n cael ei siomi gan ddoctor golygus, cyn cwrdd â Gwyddel ifanc, Des. Maes o law, daw Des yn weithiwr ar safle yr argae newydd yng Nghwm Celyn.

Cefais y teimlad wrth ddarllen y nofel hon fod yr awdur yn nabod ei gymeriadau yn dda ac yn cydymdeimlo a’u ffaeledau. Mae e’n deall y natur ddynol i’r dim. Mae Mefina, Emlyn, Des, a’r lleill yn gymeriadau cyflawn, credadwy, o gig a gwaed, a fyddai’n ddiddorol ym mha bynnag sefyllfa y bôn – Rhyfel y Degwm, 9/11, neu helynt boddi Capel Celyn. Wrth edrych yn ôl, gallwn ni weld fod pethau mawr ar waith ar ddechrau’r chwedegau, ond dyma bobl gyffredin yn byw eu bywydau wrth i’r hanes ddigwydd o’u cwmipas, a heb sylweddoli, efallai, ei arwyddocad. Mae ymateb y cymeriadau yn amrywio, rhai yn ffyrnig yn erbyn y boddi, rhai o’i blaid, ond y rhan fwyaf heb farn pendant un ffordd na’r llall.

Mae’r stori yn dilyn y cymeriadau drwy’r chwedegau i’r wythdegau, ac un ohonynt i’r presennol, ac rydym yn eu gweld yn tyfu ac yn aeddfedu. Mae eu safbwyntiau yn newid. Maent yn cydnabod eu gwendidau ac yn dysgu byw â nhw. Maent yn gweld eu breuddwydion am beth ydynt, ac weithiau yn dewis cyfaddawd fel sylfaen eu bywyd real.

Gall yr awdur yn hawdd wedi dewis Emlyn, neu Geraint, neu Gwyn fel un o arwyr yr hanes go iawn, ond ymwrthododd â’r temtasiwn, ac mae’r nofel yn gryfach am hynny.

Fel y byddwn yn disgwyl gan Martin Davis, mae hon yn nofel ddarllenadwy iawn. Cyflwynir yr hanes mewn arddull syml a deheuig, a dyw’r iaith byth yn tarfu ar rediad y stori. (Pan glywaf am Gymraeg cyhyrog mewn nofel, rwy’n gwybod fod brwydr galed o’m mlaen). Ar y llaw arall, mae hon yn dangos cymaint o rwtsh yw honni fod angen defnyddio Saesneg mewn nofelau Gymraeg i adlewyrchu’r Cymru go iawn. Mae amryw o’r cymeriadau yma yn ddi-Gymraeg, ond prin fod mwy na hanner dwsin o eiriau Saesneg mewn 270 tudalen. A phawb yn deall pwy sy’n siarad Cymraeg a phwy sydd ddim.

Rwy’n edmygu’r ffordd mae’r awdur yn medru cyfleu lleoliad gydag ychydig o eiriau pwrpasol. Pan symudodd Nain Emlyn i’r Bermo: ‘Roedd hi’n byw yn un o fythynnod yr hen dref dan gysgod Dinas Oleu, lle mae drws ffyrnt y naill annedd yn agor ar gorn simdde’r llall’ (t.26), neu mae Emlyn ‘ar ben ei hun wrth draed T.E. Ellis’ yn y Bala (t.65). Mae’n ymddangos mor rhwydd, ond rwy’n siwr i’r awdur chwysu i gael y cyffyrddiad iawn.

Mwynheuais ddarllen y nofel yn fawr ac mae’n haeddu cael ei darllen gan gynulleudfa eang.

O Bantgwyn i Sydney: taith Yr Archddiacon D. J. Davies (1879-1935)

Ar 12 Tachwedd 1878 dechreuodd David Davies ar ei swydd newydd fel athro Ysgol Elerch ac yntau'n wr priod ifanc 22 oed. Daeth i Geredigion ar ôl dal swydd debyg yn Ysgol Genedlaethol Manordeifi ac Aber-cych ar ffin siroedd Caerfyrddin a Phenfro. Roedd yn fab i fferm Cwm-coch, Llanddarog, sir Gaerfyrddin, a hannaï teulu ei wraig, Sarah Pugh Rees, o blwyf Llanedi, ar gyrion Llanelli. Roedd hi hefyd yn athrawes gymwys a bu'n cynorthwyo ar adegau yn Elerch pan nad oedd modd i'w gwr fod yn bresennol.

Ar ôl symud i Bont-goch ymgartrefodd Davies a'i wraig ym Mhantgwyn, ac yno y ganed eu plentyn cyntaf David John Davies ar 12 Chwefror 1879 ac a fedyddiwyd yn Eglwys Elerch ymhen deufis ar 20 Ebrill. Ond prin ddeunaw mis fu arhosiad y teulu ifanc yn Elerch, ac yn gynnar yn 1880 cyflwynodd yr athro newydd dri mis o rybudd ei fod am adael i dderbyn swydd a fyddai'n talu'n well yn Llanellian-yn-Rhos, sir Ddinbych. Ffarweliodd y teulu â Bont-goch ar ôl y Pasg, 1880.

Ar ôl cyfnod o ddysgu yn Llanellian penderfynodd y tad ddychwelyd i addysg lawn-amser yn yr Iwerddon, a llwyddodd i ennill gradd BA yng Ngholeg y Drindod, Dulyn yn 1886. Roedd ei fryd ar fynd i'r Eglwys fel offeiriad. Gwasanaethodd fel curad yn Llandogo ger Trefynwy, rhwng 1887-89, cyn symud i Gastell-nedd lle y bu hyd 1879. Ar ôl hynny treuliodd gyfnodau mewn plwyfi y tu allan i Gymru yng ngogledd a chanoldir Lloegr cyn symud i Bowys fel Rheithor Hirnant yn 1917. Yno y bu farw yn 1929 ar ôl magu teulu o naw o blant, er i bump ohonynt farw yn ifanc iawn. Mae David Davies a'i briod wedi eu claddu ym mynwent Eglwys St. Ilar, Llanrhos, ger Llandudno.

Ond beth a ddaeth o'r crwt bach a aned ym Mhantgwyn? Dangosodd David John Davies addewid academiaidd cynnar, ac ymhen amser fe'i derbyniwyd fel myfyriwr i Goleg y Drindod, Caergrawnt lle graddiodd gyda dosbarth cyntaf mewn hanes yn 1903. Un o'i gyfoedion a'i ffrindiau gorau yng Nghaergrawnt oedd Yr Athro R. T. Jenkins (1881-1969) ac mae yntau yn cyfeirio at eu cyfeillgarwch agos yn ei hunangofiant *Edrych yn ôl* a gyhoeddwyd yn 1968:

Fy nghyfaill pennaf o blith y darpar-offeriadon oedd D. J. Davies o'r un Coleg a minnau. Bachgen a frwydrodd yn galed; mab i giwrad tlawd o Bradford – ciwrad tlawd a fagodd dri offeiriad i'w Eglwys. Roedd Davies yn hyn na'r mwyafrif ohonom ac wedi bod yn ysgolfeistr. Bu fyw yn galed: ("You have no right to be in this place", meddai ei diwtor wrtho – yn galetach na mi - ac yn ffodus, ei hobi oedd canu'r organ, ac yng Nghaergrawnt medrai ymdaflu iddi yn rhad ac am ddim, gan ymarfer ar organ capel y Coleg. Rwy'n ei gofio ar ymweliad â mi yn y Bala yn canu'r organ ar nos Sul yn y Capel Mawr. Gweithiodd yn ddygn ac mi gafodd "first" yn yr un flwyddyn ac y cefais i "second" - fe'i cafodd ar ei waith gan nad oedd yn ysgolhaig o ran anian. Bachgen caredig "heavy going" braidd, harti; fe fedrai ryw ychydig o Gymraeg, ac yr roedd yn Gymro selog.

Ar ôl graddio penderfynodd Davies ddilyn yr un llwybr â'i dad gan gymhwyso'i hun i'r offeiriadaeth trwy ddilyn cwrs pellach yn Ridley Hall, Caergrawnt.

Bu 1911 yn flwyddyn allweddol yn ei fywyd. Priododd â Grace Augusta, pedwerydd merch y Parchedig A. G. Lowe, tref Hungerford, ac yn ystod yr un flwyddyn derbyniodd wahoddiad i fynd i Awstralia fel Prifathro Coleg Diwinyddol Moore, yn Sydney. Hwn oedd, ac yw, prif goleg diwinyddol y wlad ac sy'n dal i dderbyn dros 100 o fyfyrwyr newydd bob blwyddyn. Ac yno y bu drwy gydol ei yrfa yn ffigwr



Coleg Moore, Sydney, Awstralia

dylanwadol ym mywyd crefyddol y wlad ac yn uchel ei barch gan ei fyfyrwyr. Cyhoeddodd nifer o lyfrau ac erthyglau pwysig, yn eu plith *The Church and the Plain Man* (1919). Yn 1917 fe'i penodwyd yn Archddiacon Sydney, ond parhaodd yn ei swydd fel prifathro. Bu farw yn annisgwyl yn 1935 yn 56 oed. Gadawodd weddw a chwech o blant, a chefais y fraind o gysylltu ag un ohonynt ychydig fisoedd cyn ei farw ar ddechrau 2008. Roedd yr Athro Peter A. O. L. Davies (1922-2008), gynt o Brifysgol Southampton, Lloegr, yn un o brif arbenigwyr y byd ym maes acoustics awyrennau, ac yn ymhyfrydu yn ei wreiddiau Cymreig. Magodd yntau deulu lluosog, ac mae ei ddisgynyddion yn parhau i fyw yn Awstralia er iddo yntau ddewis byw ym Mhrydain. Bu farw Grace Davies, mam Yr Athro Peter, yn 1984, ddwy flynedd yn unig yn brin o'i chant oed.

Mae cangen arall o'r teulu, sef disgynyddion Gwladys Helen Jones (1896-1956), chwaer David John Davies, yn dal yn Gymry Cymraeg pur, ac mae gor-wyres i frawd arall, Arthur Llywelyn Davies (1884-1957) wedi ail-gydio yn y Gymraeg ac yn gweithio fel cyfieithydd yng Nghaerdydd.

I gloi, mae'n werth nodi, gobeithio, i Thomas Hughes (1867-1947), brawd fy nhad-cu, dreulio cyfnod hir yn Awstralia fel offeiriad eglwysi yn swbwrbia Sydney, ac yng Ngholeg Moore dan brifathrawiaeth D. J. Davies y cwblhaodd ei astudiaethau diwinyddol. Rhyfedd o fyd!

Richard E. Huws
Pantgwyn, Bont-goch

** Rwy'n ddiolchgar iawn i Dr. John McIntosh o Goleg Moore am ei gymorth gyda rhai manylion, ac am ei ganiatâd caredig i gyhoeddi'r ddau lun. Diolch hefyd i Dafydd Evans, Powys, perthynas i D. J. Davies, a Carys Briddon am eu gymorth.*

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SARN
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bantffed
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicange Crossing,
Llanrhaeadr, Bow Street
Ffôn: 01975 820 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**

James Jones, Treiglwydd Penaf
Goleg Moore, Sydney, Awstralia 1911-1935
01975 820111

Elin Jones AC – O’r Cynulliad

Ar ddechrau mis Hydref fe gafwyd cyhoeddiad o ddiddordeb mawr i lawer o drigolion Ceredigion, sef ym mhle fydd Eisteddfod yr Urdd yn cael ei chynnal pan fydd hi’n ymweld â’r sir yn 2010. Mae hyn wedi bod yn destun trafod mawr ar hyd a lled y sir ac rwy’n falch bod yr Urdd wedi cadarnhau mai ar ystad Llanerchaeron y cynhelir y brifwyl ymhen blwyddyn a hanner. Dyma safle sydd o fewn cyrraedd i bob rhan o Geredigion ac rwy felly’n gobeithio y bydd trigolion o bob rhan o’r sir yn cyfrannu tuag at y gwaith o drefnu sydd eisoes yn mynd yn ei flaen.



Daeth newydd da i’r Urdd yn genedlaethol hefyd wrth i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi cytundeb ar y cyd ag Awdurdodau Lleol Cymru ar sut i ariannu’r Eisteddfodau bob blwyddyn. O hyn allan bydd pob awdurdod lleol yn rhannu’r gost o gyfrannu £150,000 yn flynyddol gyda Llywodraeth y Cynulliad yna’n cyfrannu £150,000 arall tuag at gostau’r brifwyl. Rwy’n mawr obeithio y bydd hyn yn rhoi sail ariannol gadarn i Eisteddfod 2010.

Yn ddiweddar, fe gyhoeddodd y Gweinidog Iechyd, Edwina Hart AC, ei bod yn bwriadu parhau gyda’i chynllun i gael gwared ar y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru drwy eu huno gyda’r Ymddiriedolaethau Iechyd. Mae hyn yn gam pwysig iawn er mwyn lleihau biwrocratiaeth yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ac rwy’n gobeithio y bydd mwy o arian ar gael i wario ar ofal iechyd yn lleol o ganlyniad.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf rwyf wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled Ceredigion. Roedd hi’n fraint i agor ystafell gyfrifiaduron newydd ‘Dwynwen 10’ yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth, a chael cwrdd â staff a disgyblion yr ysgol sydd newydd ddechrau dilyn cwrs y Bac Cymreig. Roeddwn hefyd yn falch iawn o gael fy ngwahodd i annerch cyfarfod blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru a gynhaliwyd yn Llanwnnen eleni, ac rwyf wedi mynychu noson goffi er budd Cyfeillion Cartref yr Hafod yn Aberteifi yn ddiweddar.

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com

ylolfa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com

Ceulan-a-Maesmawr neu Ceulan-a-Maesmor?



Yn y gyfrol swmpus, *Y Gwyddionadur*, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, defnyddir yr enw ‘Ceulan-a-maesmor’ fel enw’r plwyf hwn ac nid ‘Ceulan-a-maesmawr’, sef yr enw a ddefnyddir yn lleol. Mae’n debyg y defnyddiwyd y *Rhestr o Enwau Lleoedd* a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Gwybodaau Celtaidd (1967) ar gyfer enwau lleoedd. Yn y gyfrol honno rhoddir: ‘*Ceulan-a-maesmor (nid Ceulan-y-maes-mawr)*’ ac ni cheir cyfeiriad at Ceulan-a-Maesmawr o gwbl. Serch hynny yn y ‘beibl’ arall: *Welsh Administrative and Territorial Units* gan Melville Richards (1969) ceir ‘Ceulan a Maes-mawr’. Mae amwysedd mwy cyfoes hefyd. Yn y fersiwn Gymraeg o’r ***Gorchymyn Sir Ceredigion (Newidiadau Etholiadol) 2002*** cyfeirir at Ceulan-a-maesmor fel adran etholiadol y cyngor sir ond Ceulan-a-maesmawr a geir yn fersiwn Saesneg. (Argynhyrchir yr un gwahaniaethau yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o’r beibl arall hwnnw, gwyddoniadur y we: Y WICIPEDIA).

Nid wyf wedi cael y cyfle i chwilio ymhellach i darddiad yr elfen Maesmawr/Maesmor ond mae’n debyg y byddai cyfeiriad at y ddwy fersiwn dros y canrifoedd, gan mai’r un gair ydyw yn y pen draw. Serch hynny, gan mai Ceulan-a-maesmawr yw enw’r Cyngor Cymuned, ac mae dyna’r fersiwn a ddefnyddir yn gyffredinol o fewn y gymuned, efallai y dylid ymgeisio i fabwysiadu’r ffurf hon yn swyddogol.

Er bod *Y Gwyddionadur* yn gampwaith, gwell cofnodi yma gywiriad i ambell i wall yn y darnau am yr ardal hon: ‘Gwynfryn’ nid ‘Glasfryn’ oedd cartref Basil Jones.

Dywedir mai yn ystod brenhiniaeth Fictoria y sefydlwyd yr enw Tretaliesin, ond ceir cyfeiriad at yr enw hwnnw yn 1821, dros bymtheng mlynedd cyn coroni’r frenhines.

GJ

Age Concern - Ceredigion
CLWB CINIO TAL-Y-BONT

YDYCH CHI’N MWYNHAU CYMDEITHASU,
Cael hwyl, cadw’n iach, mwynhau bwyd blasus?
YMUNWCH A NI - CLWB CINIO TAL-Y-BONT.
CWRDD UNWAITH Y MIS YN Y LLEW DU

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â Jane Raw-Rees, Swyddfa Aberystwyth, Cyngor Henoed Ceredigion, Yr Hen Ysgol Gymraeg, Ffordd Alexandra, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1LE.
Ffôn: (01970) 615151. E-bôst: jrr@ceredigionageconcern.fsnet.co.uk
Elusen Cofrestredig1042789

Ysgol Gynradd Llangynfelyn

Arad Goch

Mae cwmni theatr Arad Goch wedi bod yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol ers cyn hanner tymor. Maent wedi bod yn gweithio efo disgyblion blynydoedd 5 a 6 yn datblygu dealltwriaeth y plant o'r llyfr Henri Helynt, llyfr y maent wedi bod yn astudio yn ystod y tymor.

Trawsgwlad

Cymerodd dosbarthiadau'r adran Iau rhan yng nghystadleuaeth trawsgwlad ardal Aberystwyth yn ddiweddar. Rhedodd pawb yn dda iawn, ond fe fydd Tobia Heathfield Blwyddyn 3 yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Diolchgarwch

Cafwyd cyfarfod diolchgarwch hynnod o bleserus yn yr ysgol yng nghwmni Mrs Dulcie James. Casglwyd llawer o ffrwyth a llysiau, a rhannwyd rhain allan i henoed y pentref.



Parti Calan gaeaf

Trefnodd y Cyngor Ysgol barti Calan Gaeaf yn yr ysgol. Cynlluniodd y plant y bwyd a'r gemau i gyd, gan dd0anf0n Mr John i siopa! Dyma hefyd oedd ein ymgyrch Masnach Deg am y tymor.

Trip i'r Theatr

Aeth yr holl ysgol i Theatr y Werin, Aberystwyth i weld perfformiad Llyfr Mawr y Plant. Cafwyd amser da iawn yn gweld cymeriadau hoffus y llyfr enwog yma yn dod yn fyw.

Noson Tân Gwylt

Cynhaliwyd noson Tân Gwylt yn yr ysgol eto eleni a chasglwyd swm da o arian ar gyfer yr ysgol. Diolch i'r PTA am drefnu noson pleserus, i Malcolm Hayes am gyfrannu'r tân gwylt ac i Linda Hicks am y cawl blasus.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

ANGEN
Amfeibaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 180627



Gronfa Apêl Cancr y Fron

Dechreuodd Clwb Dawnsio llinell y Raven' Stompers yn 2005. Gyda thri dosbarth yn cael eu cynnal yn wythnosol yn Nhalybont, Taliesin ag Aberystwyth – mae teulu'r Raven' Stompers yn gorchuddio tipyn o ddalgylch gogledd Ceredigion!

Gan eu bod yn cael cymaint o hwyl yn mynd i wyliau a chyfarfodydd cymdeithasol ar hyd a lled y wlad, penderfynodd y Raven' Stompers ddechrau cynnal nosweithiau hwyl eu hunain er mwyn codi arian i achosion da.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf yng ngwesty'r Marine, Aberystwyth nôl yn Chwefror 2005. Bu Paul Bailey'n diddanu'r dorf ac yn cadw'r man dawnsio'n llawn. Codwyd cyfanswm o £3,900 y noson hynny a rhannwyd yr arian rhwng yr apêl a chronfa Steven Southgate.

Yn ystod y rhan olaf o 2005, cafwyd sawl raffl gyda Heulwen yn targedu pawb yn y siop! Roedd hyn oll yn help mawr i godi'r cyfanswm.

Ar ddechrau 2006, cyfarfu pawb yng ngwesty Llety Gwyn, Llanbadarn, Aberystwyth – sydd erbyn hyn wedi'i ddymchwel – lle trosglwyddwyd sic o £2,550 yng nghwmni'r Country Kittens i'r apêl.

Dawnsio llinell nodedig oedd y sialens nesaf, a pharodd am bum awr, a phrofwyd ffitrwydd sawl aelod ym mis Ebrill 2007! Yn dilyn hynny, cynhaliwyd noson hwyliog yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth yng nghwmni'r Vegas Country Duo - ag yn ôl yr arfer, cyflwynwyd sic o £3,800 i'r elusen.

Ar benwythnos wyl y banc mis Awst 2007, gwelwyd digwyddiad cyntaf y Raven' Stompers yn y Bandstand yn Aberystwyth lle'r oedd modd dawnsio llinell yn yr awyr agored wrth gael eu diddanu gan Carl Shay a Bobby D Sawyer- a chyfle gwych arall i godi rhagor o arian! Roedd y dawnsio a'r adloniant am ddim, a'r gweithgareddau'n atynnu haelioni'r bobl oedd yn mynd heibio!

Yn hwyrach yn y flwyddyn ym mis Tachwedd, cafwyd sialens newydd – i ddawnsio llinell i ganu gwlad Gymreig yng nghwmni John ac Alun! Ni fu'r gwagle dawnsio'n wag drwy'r nos, a dangoswyd cefnogaeth enfawr gan drigolion Talybont a'r Cylch! Cyflwynwyd sic o £1,800 i'r elusen a nodwyd bod y clwb wedi bwrw targed gwyrtiol o £10,000 mewn tair blynedd gwt!

Mis Ebrill 2008, trefnwyd noson o hwyl yng nghlwb Rafa Aberystwyth. Yr artist oedd Paul Bailey, a bu pawb yn ofni na fyddai'n stopio canu! Ar y nodyn hynny (fel petai!) gofynnwyd iddo ddychwelyd i'r ardal ar gyfer penwythnos gwyl y banc mis Awst! Felly, bu llond y prom o ddawnsiwr llinell ar y dydd Llun a'r dydd Mawrth!

Felly ar ôl cymaint o weithgareddau, cafwyd noson hwyl yng nghlwb Rafa eto, lle cyflwynwyd sic o £3,348 i'r Gronfa Apêl Cancr y Fron. Hefyd, lansiwyd dawns newydd gan y Raven' Stompers, gyda Heulwen yn ei dysgu hi i bawb ar y noson. Galwyd y ddawns yn "More of you" gan fod angen mwy o ddawnsiwr (hen lawiau a chychwynwyr) i ddod i ymuno yn yr hwyl a'r dosbarthiadau er mwyn cael codi hyd yn oed rhagor o arian i'r elusen gwerth chweil yma! Hwn oedd y ddawns gyntaf i gael ei 'sgwennu ganddynt.

Erbyn hyn, mae'r cyfanswm a drosglwyddwyd wedi cyrraedd £13,348! Mae'r arian wedi'i ddefnyddio i agor ward pedwar gwely yn yr ysbyty i drin cleifion Cancr y Fron. Yn amlwg, mae'r Raven' Stompers yn falch iawn o'u llwyddiant.

Maent erbyn hyn yn y broses o drïo 'sgwennu dawns arall yn barod i'w parti 'Dolig sydd yn cael ei gynnal ar yr 20fed o Ragfyr yn Neuadd Goffa Talybont yng nghwmni Johnny Holland.



Priodas Diamwnt

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Jim Morgan, Maesmawr, Tal-y-bont ar ddathlu penblwydd priodas ddiamwnt ar Hydref 14eg. Priodwyd y ddau ar ddiwrnod braf o Hydref yng nghapel Tabernacl, Ffairfach, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin.

Dathlwyd yr achlysur hapus gyda chinio mewn gwesty lleol yng nghwmni eu teulu.



Talent Lleol

Llwyddiant arbennig i Elen Thomas, CFFI Tal-y-bont gan ennill 4 gwobr gyntaf – Unawd dan16oed, Unawd Alaw Werin, Canu Emyrn ac Unawd Sioe Gerdd

Llun Tim Jones



Cymundeb cyntaf

Dyma Mairéad a Llyr Jones, Ynystudor newydd dderbyn eu cymundeb cyntaf yn Eglwys St Cormac, Boolavogue, Iwerddon yn ystod mis Mai.



Capten Clwb Borth ac Ynyslas

Karen Evans, Llys Terfyn, Tal-y-bont a etholwyd yn gapten newydd gwragedd Clwb Borth ac Ynyslas.



Parti Calan Gaeaf Ysgol Gynradd Llangynfelyn



Siopwyr Nadolig yn yr Hen Ysgol yn chwilio am anrhegion ar stondin DOTS.

Clwb Ffermwyr Ifanc

Mi fuom yn brysur yn gwneud cynlluniau a mynychu ymarferion di-ben draw drwy gydol mis Hydref i baratoi ar gyfer cystadlaethau'r Eisteddfod a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan ar 30 Hydref ac 1 Tachwedd.

Llwyddwyd i gynnal sawl gweithgaredd arall rhwng yr ymarferion ag ati fel noson o gemau dwl, gwirion a hollol boncyrs ar 7 Hydref dan ofal Mererid Cwmudw!

Nos Fawrth y 14eg, daeth Mr Huw Hopkins o Langwryfon gyda'i ferch Lowri atom i ddangos sut oedd gwneud cebystr. Bu pawb yn wyladwrus a gwrando'n astud tra gwnaed sawl rhaff.

Y noson ganlynol, y 15fed, yng nghyfarfodydd y Sir, cyhoeddwyd canlyniadau'r Chwaraeon Dan Do. Dyfarnwyd Clwb Tal-y-bont yn gydradd 6ed! Canlyniad da iawn!

Trefnwyd noson o farnu wŷn tew lawr ar fferm Tynberllan, Llanilar dan hyfforddiant Huw Tudor ar yr 22ain. Daeth Geraint Cerrigcarannau'n ail yn yr adran 26ain ac iau.

Nos Iau, 30 Hydref cafwyd rhan gynta' cystadleuthau'r Eisteddfod lle bu Elen Steddfa'n cystadlu yn yr unawd 16eg ac iau a'i ennill! Tra daeth Aled Llŷr a finnau'n ail yn y gystadleuaeth Deialog ar y pryd.

Ddydd Sadwrn y cyntaf o Dachwedd, bu rhagor o "clean sweep" gydag Elen Steddfa'n cipio'r wobr am yr alaw werin orau, canu emyn a'r unawd Sioe Gerdd. Ddiwedd y noson, dyfarnwyd hi'r unawdydd gorau ac enillodd gwpan her Mr a Mrs Gwyndaf James am yr ail flwyddyn yn olynol! Bu'r sgets yn llwyddiannus hefyd gan gael 3ydd gydag actio comic Elgan Tynant, Geraint Cerrigcarannau, Aled Llŷr a Rhys Richards.

Er yr holl gystadlu, bues i tu ol y camerau yn gwe-ddarlledu am yr ail flwyddyn yn olynol a chael y cyfle i gyfarwyddo'r cystadleuthau'r corau. Peth od yw gweld y'n holl ffrindiau tu fewn bocs, ond glywais i



Geraint Jenkins, Penpompren



Mr Huw Hopkins



John ac Einion

bod Gwilym Llety'r Bugail wedi bod yn gwylio ar y compiwtyr a joio mas draw!

Yn dilyn y 'steddfod, 'roedd noson tân gwyllt wedi'i drefnu yn Nhynant. Cafwyd gwledd o farbeciw, paneidiau o de, tanllwyth o goelcerth a sparcs gwerth chweil ar noson lwyddiannus iawn - dwi'n siŵr byddai'n syniad i ni wneud hyn yn flynyddol!

Cofiwch ddod i weld goreuon y 'steddfod. Byddwn yn cynnal noson ar y cyd efo Chlwb Ffermwyr Ifanc Trisant ar y 25ain o Dachwedd yn Neuadd Penllwyn, Capel Bangor am 7:30. Hoffwn gymryd y cyfle yma hefyd i ddymuno pob hwyl i Elen yn Eisteddfod Cymru ym Mrynaman, Gaerfyrddin ar yr 22 Tachwedd.

Os oes gennych unrhyw ddiddordeb yn unrhyw noswaith rydym yn cynnal, byddwn yn eich croesawu i'm plith boed yn gyn aelod, riant neu'n ffrind newydd! Cysylltwch ag un o'r swyddogion neu ymunwch â ni yn y man cyfarfod arferol yng ngwaelod Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Eleri James



Triaud y buarth



Llyr, Trystan a Serian



Pryd ar Glyd, Mer a Myf a'r Merlo!



Cwsmeriaid cyntaf y barbeciw

Yn y Ffeinal

Erbyn i'r rhifyn hwn o Papur Pawb ymddangos, byddwn yn gwybod canlyniad cystadleuaeth a drefnwyd ar y rhaglen UNED 5. Mae Steffan Nutting, Ty Hen Henllys wedi bod yn ymgiprys cystadleuaeth Go Cartio ers rhai wythnosau ac mae'r ffeinal i'w gweld ar y teledu Nos Fercher, Tachwedd 12fed.

Gwerth mewn Gwastraff!?

Yn ystod cyfnod trychinebus i nifer o sefydliadau ariannol y byd mae'n dda cyfnodi fod na rhai 'banciau' o fewn pentre Tal-y-bont sy'n mynd o nerth i nerth! Mae cynllun lleol, sydd yn cael ei redeg mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a Chlwb Ieuencid Tal-y-bont, wedi bod yn lwyddiant mawr ers i fanciau ailgylchu cael eu lleoli ar safle ger 'Cae Bach' nôl yn niwedd mis Ionawr 2004.

Mae'r cynllun, sy'n profi all fod gwerth mewn gwastraff, wedi cynyddu'r canran o'r sbwriel fel cymuned yr ydym yn ei ailgylchu. Erbyn hyn mae yna fanc dillad ac esgidiau wedi ei ychwanegu i'r banciau papur, plastig, gwydr a chaniau gwreiddiol sy'n ehangu'r deunydd a budd felly sy'n deillio o'r scêm.

Am gadw golwg ar y safle, mae'r Clwb Ieuencid yn derbyn £10 am bob tunnell o ddeunydd ail-gylchu sy'n cael ei gasglu o'r safle. Ers i'r fenter gychwyn, drwy gefnogaeth trigolion Tal-y-bont a'r cyffuniau mae yna:

43852 kg o Wydr
50574 kg o Bapur
12829 kg o Blastig
4022 kg o Ganiau

wedi ei gasglu o'r banciau. Cyfanswm o **111277 kg** (neu bron 110 o dunellau yn hen arian!) o ddeunydd defnyddiol wedi ei arbed i'w ailgylchu a ailddenyddio yn hytrach na chael ei gladdu'n y ddaear. Mae hyn yn golygu fod y Clwb Ieuenctud wedi derbyn bron **£1113** mewn taliadau sydd wedi ariannu triapiau i nofio, bowlïo deg a'r sinema yn ogystal i brynu offer ar gyfer y Clwb.

Er i gynllun casglu deunydd ailgylchu mewn bagiau clear o ddrws i ddrws ddechrau yn fwy ddiweddar i'w gwneud hi'n haws byth ag i'n annog ym mhellach i gynyddu'r lefelau ailgylchu mae cynllun banciau Tal-y-bont wedi dal ei dir – yn enwedig gan nad yw pawb sy'n byw y tu hwnt i ffin y pentre yn derbyn casgliad. Yn ogystal gan mai ond casgliad bob pythefnos a wneir o ddrws i ddrws mae nifer yn chwilio'r banciau yn ffordd gyfleus iawn o waredu ei deunydd

Canlyniad BLE YN Y BYD mis Hydref

Paul Watkin, Heulfor, Staylittl – tocyn llyfrau £10.00 iddo ef.

Ateb Hydref: Tynnwyd y llun yng ngardd rhif 6 Pentre Bach – cartef Tomos Morgan a'r teulu.

ailgylchu yn lleol a fel sydd angen yn ogystal wrth gwrs a chefnogi ieuenctud y fro! Ni chesglir gwydr yn y bagiau clear oherwydd gofidion iechyd a diogelwch felly mae'r banciau yn ddefnyddiol iawn i waredu rhain hefyd.

Mae'r banciau yn cael eu gwacáu yn reolaidd unwaith yr wythnos ar ddydd Llun. Ond cofiwch, os ydych yn ymweld â'r safle a gweld bod un neu fwy o'r banciau'n llawn, gellir ffonio CSC ar **01970 633 010** i drefnu casgliadau ychwanegol. Cofiwch hefyd nad yw bocsys cardfwrdd yn cael eu casglu o'r safle ac na ddylid gollwng y bagiau clear ger y biniau gan nad ydyn nhw chwaith yn cael eu casglu gan y Cyngor

CYMDEITHAS

Gyda'r Nadolig ar fin ein cyrraedd, mae'n gyfnod delfrydol i ail-gylchu gan ein bod yn cynhyrchu fwy o wastraff adeg yma o'r flwyddyn – gobeithio fydd Sion Corn yn cofio bod yn hael tra'n dosbarthu ei bresantau i lawr swmneiau y cylch...cofiwch chi i fod yn hael i'n ieuencdud a'r amgylchedd drwy ddosbarthu eich deunyddiau ailgylchu yn y banciau!

**CYMDEITHAS
SIOE TAL-Y-BONT**

GYRFA CHWIST DOFEDNOD

Neuadd Goffa Tal-y-bont
17, Rhagfyr, 2008

8 o'r gloch

FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN

**CYFARFOD
BLYNYDDOL
YN Y CARTREF**

Nos Fercher
26 Tachwedd, 2008
7 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

**EGLWYS ST. PEDR,
ELERCH**

**GWASANAETH
CAROLAU
BLYNYDDOL**

NOS FERCHER, 10
RHAGFYR 2008
am 7-00 PM

CROESO CYNNES I BAWB
Cyflwynir y casgliad eleni i
elusen:
PLANT DEWI

Ble yn y byd?

Sut i chwarae

Ble yn nhalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans. Garnwen. Tal-y-bont erbyn 7 Tachwedd.

Gwobr: Tocyn Llyfr £10

i'r ateb cwir cyntaf allan o'r het.




CHWARAEON

Llwyddiant Golffwyr Lleol

Mae nifer o olffwyr lleol wedi derbyn breintiau mawr yn ddiweddar. Enwebwyd Daniel Basnett, Swn-y-gôg, Bont-goch, yn gapten ieuencid Clwb Borth ac Ynyslas. Llongyfarchiadau iddo ac hefyd i'w chwaer Angharad sydd newydd ennill lle yng ngharfan Elite Golff Cymru. Bydd Angharad yn dechrau ar ei hyfforddiant cyn diwedd mis Tachwedd a hynny ar gwrs y Celtic Manor, cartref Cwpan Ryder, 2010.

Llongyfarchiadau hefyd i Karen Evans, Llys Terfyn, Tal-y-bont a etholwyd yn gapten newydd gwagedd Clwb Borth ac Ynyslas.



Daniel Basnett

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Mis Cymysglyd

Anghyson fu perfformiadau Clwb Pêl-droed Tal-y-bont yn ystod y mis. Tynnwyd y llun isod o'r tîm cyn y gêm yn erbyn Phoenix, tîm newydd o fyfyrwyr Coleg, a chafwyd buddugoliaeth swmpus o 5-0, gyda Dylan Roberts yn rhwydo tair a Jaimie Barron a Barry Southgate yn sgorio'r dwy arall. Yr wythnos ganlynol collwyd yn erbyn yr hen elyn Eilyddion Bow Street o 6 i 3.

Dydd Sadwrn diwethaf rhoddwyd cosfa i Corris United o saith gôl i un. Rhannwyd y goliau rhwng Dylan Roberts (dwy), Jaimie Barron, Carl Jones, Robbie Southgate, Anthony Southgate a Wyn Benjamin.

Bellach mae Tal-y-bont yn bedwerydd yn ail adran Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch ac mae gobaith o hyd am ddyrchafiad i'r adran gyntaf.

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

